

# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 20fed o Fawrth 2017 am 7pm

Presennol: Cyngorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cyngorwyr: Peter Parker, Bethan Lawton, Arwel Pierce, Alan H. Jones, Ieu Thomas, Simon Jones

1. Ymddiheuriadau: Dim
2. Datgan diddordeb: Ni fu i unrhyw Gyngorydd ddatgan diddordeb
3. Derbyn cofnodion 20 Chwefror 2017

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion.

4. Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101532	£160.49
Cyllid a Thollau	Yswiriant Gwladol	101533	£40.00
B Gwilym	Teithio	101534	£324.00
Y Ganolfan	Llogi ystafell	101535	£12.00
B Gwilym	Teleffon	101536	£15.00
Zurich	Yswiriant	101537	£588.46
Cyngor Gwynedd	Ysbwriel	101538	£71.00
Alan H. Jones	Trydan	101539	£20.00

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

5. Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru - Cynlluniau i gau Dalfa Dolgellau:

Cyrhaeddodd y Cyngorydd Simon Jones y cyfarfod am oddeutu 7:19pm

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu llythyr yn gwrthwynebu colli'r gwasanaeth, gan nad oes sicrwydd y daw y swyddogion ychwanegol i ardal Bryncrug, gyda'r Cyngorydd Arwel Pierce yn cynnig a'r Cyngorydd Bethan Lawton yn eilio.

6. Cyngor Gwynedd - DEWIS Cymru:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

7. Cyngor Gwynedd - Ymchwiliad Craffu Trefniadau Cynllunio Cyngor Gwynedd:

Adroddwyd nad oedd angen i Gyngorau o fewn ffin Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gwblhau'r holiadur.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

8. Cyngor Gwynedd - Contract Toiled Cyhoeddus 2017/18:

**PENDERFYNIAD:** Awdurdodi'r Clerc i lofnodi'r contract ar gyfer 2017/18. I anfon llythyr gyda'r contract yn gofyn i Gyngor Gwynedd baentio'r adeilad gan ei fod hefyd yn gysgodfa ac yn cael defnydd uchel, yn enwedig gyda plant ysgol yn ei ddefnyddio er mwyn aros am bws ysgol.

9. Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol - Holiadur:

**PENDERFYNIAD:** Y Clerc i gwblhau'r holiadur.

10. Bobath Cymru - Cais Ariannol:

**PENDERFYNIAD:** Gadael y cais ar y bwrdd.

11. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Dolau Gwyn, Brynchrug (NP5/55/LB126B):

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad. Yn falch o weld yr adeilad yn cael ei ddiogelu ar gyfer y dyfodol.

12. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru - Arolwg o'r trefiadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd:

Adroddwyd bod Swyddogion yn Nghyngor Gwynedd wrthi'n paratoi ymateb i'r arolwg a bydd yn barod yn y deufis nesaf.

Nodwyd pryder na ddylid gwneud wardiau gwledig yn rhy fawr.

**PENDERFYNIAD:** I ohirio'r eitem nes bydd adroddiad Cyngor Gwynedd i law.

13. Cae Chwarae - Adroddiad:

Nodwyd y canlynol:

-Eiddew yn tyfu ger y giât

-fffenestri "Dug-outs" angen ei atgyweirio

-papur cegin yn cael ei ddefnyddio fel papur toiled

**PENDERFYNIAD:**

Y Clerc i brynu papur toiled.

Atgoffa Clwb Pêl-droed am y ddyled a bod angen glanhau'r Pafiliwn ar ddiwedd y tymor.

Llunio rhestr o'r gwaith sydd angen ei wneud yn y cae chwarae

Gan bod nifer o rieni yn parcio ger y cae pêl-droed, i gael amcan bris gan James a cwmni y Gelli, Llanfrothen am roi tarmac neu grasscrete er mwyn rhwystro ceir rhag creu mwd.

I anfon llythyr at gwmni Novus yn gofyn os yw'r cwmni yn dymuno defnyddio rhan o'r cae er mwyn gosod paneli solar.

14. Cae Chwarae - Dyfynbrisiau torri gwair 2017:

Derbyniwyd dau bris.

**PENDERFYNIAD:**

I dderbyn pris Kevin Jones, Machynlleth.

I hysbysu'r contractwr mai ar ddydd Dydd Sadwrn, 1af o Orffennaf 2017 y bydd Carnifal y Pentref yn cael ei gynnal.

15. Adroddiad y Cyngorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:

-bod Mr Morgan Vaughan OBE wedi ymddeol ar ôl sawl blwyddyn fel Cadeirydd Pwyllgor Apêl Ysbyty Tywyn a'r Cylch. Yn ei le, fe etholwyd y Cyngorydd Anne Lloyd-Jones fel Cadeirydd a'r Cyngorydd Alun W. Evans yn is-gadeirydd.

-Cyngor Gwynedd yn ailwampio Llys Cadfan ar gyfer unigolion sydd yn dioddef o ddementia, bydd gofal dwys ar gael a pum gwely ychwanegol. Cyngor Gwynedd yn wynebu prinder staff gofal ac yn ceisio cael rhagor o staff ar gyfer ardaloedd gwledig. Posibilrwydd y bydd oriau y Ganolfan Dydd yn newid ychydig.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

16. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Trafodwyd edrychiad yr Eglwys ac annedd o'r enw Wenrose, Glandwr sydd yn achosi pryder i drigolion lleol oherwydd eu hedrychiad.

**PENDERFYNIAD:**

I gysylltu gydag adran Rheolaeth Adeiladu ac uned Tai Gwag Cyngor Gwynedd parthed y ddau adeilad. I gysylltu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn mynegi pryder y Cyngor ynglŷn â edrychiad y ddau adeilad sydd o fewn ffiniau'r parc.

I gynnig rhodd o £15 i Gapel Bethel, er mwyn cyfrannu tuag at gost trydan i'r goeden Nadolig.

I ysgrifennu at uned Priffyrdd Cyngor Gwynedd er mwyn eu hysbysu bod gwter angen sylw rhwng Pentre Uchaf a'r Hen Ysgol

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:30pm

Llofnod y Cadeirydd .....